ColegauCymru
CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

newyddion Cymraeg ColegauCymru #174
23 Chwefror 2015

Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.

Gobeithio y mwynhewch y gwasanaeth newydd!

Rydyn ni wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru ac yn mireinio'r bas-data o danysgrifwyr. Ymddiheurwn os ydych wedi derbyn y rhifyn hwn ar gam. Cysylltwch da chi os hoffech dynnu eich enw o'r tanysgrifiad Cymraeg.

Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news, the weekly roundup of news from across education colleges in Wales.

We hope you enjoy the new bilingual service!

We are in the process of updating and perfecting our database of subscribers. We apologise if you have received this edition in error. Do please let us know if you would like to remove your name from the Welsh-medium subscription.

Colegau a Staff o Ansawdd

Clod oddi wrth Estyn am Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Mae Estyn wedi gwahodd y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, sy'n cael ei ddarparu gan Gyngor Abertawe a Choleg Gŵyr Abertawe, i baratoi astudiaeth achos ar yr arferion ardderchog a welwyd yn ystod yr arolygiad diweddar er mwyn gallu lledaenu arferion da ar draws Cymru.
Mwy>>>

Darlithwraig Aberystwyth yn rhwydweithio cynhadledd TG fwya'r byd

Mae darlithydd TG Coleg Ceredigion, Anne Marggraf-Turley, wedi bod yn defnyddio ei sgiliau rhwydweithio cyfrifiaduron i helpu un o gynadleddau TG fwya'r byd i fod yn hygyrch i'r byd - 31ain Cyngres y Chaos Computer Club (31C3) - yn ogystal ag i'r 12,000 o fynychwyr.
Mwy>>>

Dilyniant Myfyrwyr

Cyn Fyfyrwraig Coleg yn Brif Ddylunydd ar Ffilm ar Frig yr Oscars

Cyn-fyfyriwr y celfyddydau yng Ngrŵp Llandrillo Menai, Annie Atkins, yn gweithio fel prif ddylunydd graffig ar ffilm hynod lwyddiannus Wes Anderson, The Grand Hotel Budapest, sydd newydd ennill 4 Oscar.
Mwy>>>

Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

Cystadleuwyr gwallt yn cyrraedd rowndiau terfynol y DU

Mae myfyrwyr gwallt a harddwch Coleg Gwent wedi ennill 15 o wobrau yn rowndiau rhanbarthol cystadleuaeth sgiliau yr Association of Hairdressers and Therapists (AHT) ac wedi sicrhau sawl lle yn rownd derfynol y DU yn Blackpool yn ddiweddarach eleni.
Mwy>>>

Myfyrwyr Rhyl yn Disgleirio yng Nghystadleuaeth Ddadlau Caergrawnt

Bu dau aelod o Ganolfan y Chweched Rhyl Grŵp Llandrillo Menai, sydd yn astudio ar gyfer eu lefel A, yn fuddugoliaethus yng Nghystadleuaeth Ddadlau flynyddol Ysgolion Undeb Caergrawnt 2014-15 (rhanbarth Gogledd Cymru). Y nhw nawr yw'r unig dîm o Gymru sydd ar ôl yn y gystadleuaeth, a byddant yn cynrychioli'r unig ysgol/coleg wladwriaethol sydd o hyd yn y dwrnamaint.
Mae rownd derfynol y Gogledd Orllewin, sy'n cynnwys swydd Gaerhirfyn a Glannau Merswy, yn cymryd lle ym mis Chwefror.
Mwy>>>

Maent mewn busnes!

Mae dau o fyfyrwyr o'r Coleg Merthyr Tudful wedi swyno rhai o brif entrepreneuriaid a phobl fusnes Cymru gyda'u syniad arloesol o 'Stress Less', sef Menter Gymdeithasol a gynlluniwyd i gymryd y straen allan o'r cyfnod arholiadau. Dim ond 25 o bobl o Gymru gyfan a ddewiswyd i fod yn bresennol Bwtcamp Syniadau Mawr Cymru a gynhaliwyd yn gynharach eleni.
Mwy>>>

Gwaith myfyrwyr i'w gyhoeddi mewn blodeugerdd o farddoniaeth

Bydd cerddi chwech o fyfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai yng Nghanolfan Chweched Dosbarth y Rhyl yn cael eu cynnwys mewn llyfr fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn, diolch i'w llwyddiant mewn cystadleuaeth barddoniaeth lefel y DU.
Mwy>>>

Llwyddiant cogyddion ifanc yng nghystadlaethau'r Urdd

Mae myfyrwir arlwyo Coleg Ceredigion, Deejay Harrison, wedi ennill cyntaf yng nghystadleuaeth CogUrdd ar gyfer oed 14-19 a bydd nawr yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili ym mis Mai.
Mwy>>>

Colegau yn eu Cymunedau

Coleg Ceredigion Yn Cefnogi Tîm Rygbi Ieuenctid Newydd

Mae aelodau tîm rygbi ieuenctid newydd Ceredigion a ffurfiwyd yn ddiweddar bellach wedi derbyn eu citiau chwarae newydd gan ddiolch i'r noddwyr, Coleg Ceredigion a Pharc Carafanau Brownhill.
Mwy>>>

Y Gwasanaeth tân yn gwobrwyo'r coleg am ddatblygu hyfforddiant staff ar-lein

Mae tîm gwasanaethau dysgu ar-lein Coleg Sir Gâr wedi derbyn gwobr oddi wrth Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am ddatblygu cyfleuster rhyngrwyd ar gyfer datblygiad a hyfforddiant staff.
Mwy>>>

Disgyblion clwb celf yn cynnig syniadau i arbenigwr adwerthu Clarks

Mae disgyblion ysgol Llanelli wedi bod yn cynnig eu syniadau creadigol i gydymaith marchnata o frand esgidiau byd-eang yn y Clwb Sadwrn Celf a Dylunio Cenedlaethol sy'n cael ei gynnal gan Goleg Sir Gâr.
Mwy>>>

Cyrsiau Hwb TGAU

Mewn ymgais i helpu disgyblion ar draws y rhanbarth i symud ymlaen i astudio ymhellach neu i'w dewis o yrfa yn ystod yr Haf eleni, mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi lansio cwrs i helpu i roi sylw i'r bylchau mewn gwybodaeth a rhoi'r cyfle gorau i ddysgwyr gyflawni'r graddau maen nhw'n dymuno eu cael.
Mwy>>>

Cwrs Amaethyddiaeth Newydd mewn partneriaeth â ffermydd lleol

Gan ddechrau ym mis Medi 2015, bydd diploma Lefel 3 newydd mewn Amaethyddiaeth, Cefn Gwlad a Chadwraeth ar gael yng Ngholeg Ceredigion mewn partneriaeth â ffermydd lleol.
Mwy>>>

Ffair gyrfaoedd plant yn canolbwyntio ar swyddi seiliedig ar dir

Mae bron i 200 o blant o ysgolion ar draws Cymru wedi bod yn dysgu am yrfaoedd yn y diwydiant seiliedig ar dir drwy bartneriaeth rhwng Gyrfa Cymru a Choleg Sir Gâr.
Mwy>>>

Myfyrwyr Academi Chwaraeon yn cynnal twrnameintiau ysgolion

Ychydig cyn hanner tymor, bu Academi Chwaraeon Llandarsi yn gartref i nifer o ysgolion cyfun lleol ar gyfer twrnamaint pêl-rwyd a rygbi Blwyddyn 10, gyda'r ddau dwrnamaint yn cael eu rhedeg gan fyfyrwyr coleg.
Mwy>>>

Cydnabod Effaith Gadarnhaol Colegau a Myfyrwyr

Cydnabod Ymrwymiad Gwirfoddolwyr i Gynhwysiant ac Amrywiaeth mewn Chwaraeon

Yn ddim ond 17 oed, mae Callum Sapey, myfyriwr chwaraeon yng Ngholeg y Cymoedd, wedi cael ei gydnabod am ei ymrwymiad i raglen wyliau ac i dîm pêl-droed ar gyfer pobl anabl.
Mwy>>>

Cydnabod Llwyddiant Arweinwyr Chwaraeon

Ymunodd Prif Weinidog Cymru a myfyrwyr chwaraeon o nifer o golegau ledled Cymru mewn derbyniad yn y Senedd ym Mae Caerdydd i ddathlu gwaith Sports Leaders UK.
Yn eu plith roedd myfyrwyr o Gampws Crosskeys Coleg Gwent.
Mwy>>>

Ysgol yn Enwi Llysgennad Prentisiaethau

Mae Ysgol Uwchradd Cyfarthfa wedi enwi un o'i gyn-ddisgyblion, Lloyd Price, sydd nawr yn fyfyriwr Dysgu Seiliedig ar Waith yng Ngholeg Merthyr Tudful, yn Llysgennad Prentisiaethau
Mwy>>>

Esgob Tyddewi yn ymweld â'r dosbarth

Cafodd Esgob Tyddewi groeso cynnes gan fyfyrwyr mynediad i'w dosbarth ar gampws Rhydaman Coleg Sir Gâr yn ddiweddar.
Mwy>>>

Barwnes ar ynni, addysg ac entrepreneuriaid

Fel rhan o'i thaith drwy Orllewin Cymru yn edrych ar ynni, addysg ac entrepreneuriaid, clywodd y Farwnes Randerson am gynigion i drawsnewid addysg yn Sir Benfro ac am ymrwymiad Coleg Sir Benfro i ddarparu prentisiaethau.
Mwy>>>

Coleg Sir Benfro yn lansio ymgyrch gwrth-drais ar draws y sir

Coleg Sir Benfro oedd y lleoliad ar gyfer lansiad ymgyrch gwrth-drais ar draws y sir, Addewid Paul, yn deillio o hanes bersonol Paul Pugh.
Mwy>>>

Cyfleoedd Dysgu

Ysbrydoliaeth celf ym Mharis

Mae myfyrwyr celf a ffotograffiaeth Safon Uwch o Goleg Gwent wedi dychwelyd o daith maes ysbrydoledig i Baris lle gawsant brofiad o waith celf newydd a chyfle i weld campweithiau enwog.
Mwy>>>

Lleoliad gwaith ar hawliau dynol yn Ghana

Mae Greta Pine o Grŵp Llandrillo Menai, myfyrwraig 18 oed sy'n astudio'r Fagloriaeth Ryngwladol ac sydd a'i bryd ar ddod yn arbenigwr hawliau dynol, nol yn y coleg yn dilyn lleoliad gwaith pythefnos o hyd yn Ghana yn dysgu am hawliau dynol.
Mwy>>>

Graddedigion a myfyrwyr coleg yn gweithio ar berfformiad pypedau mawr

Mae myfyrwyr creadigol Coleg Sir Gâr wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy ac i weithio gyda graddedigion cynllunio theatr i greu ac animeiddio eu pypedau mawr fel rhan o bartneriaeth rhwng Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Wales & West Utilities i godi ymwybyddiaeth o beryglon carbon monocsid.
Mwy>>>

Anrheg annisgwyl i brentisiaid

Cyflwynwyd set o dŵls gwaith i brentisiaid gwaith trydan gan eu darparwr hyfforddiant, JTL Training, wrth iddynt fynychu Coleg Caerdydd a'r Fro am ddiwrnod yr wythnos.
Mwy>>>

Trinwyr gwallt yn camu ar rodfa ffasiwn

Symudodd sioe ffasiwn sy'n canolbwyntio ar waith myfyrwyr trin gwallt a thechnoleg ewinedd o Goleg Sir Gâr i'r rhodfa ffasiwn mewn noson greadigol o hudoliaeth a steil yn Mharc y Strade yn ddiweddar.
Mwy>>>

Ysbrydoliaeth y Tate Gallery yn Llundain

Mae myfyrwyr o Grŵp NPTC wedi arddangos gwaith ffotograffig ochr yn ochr â gwaith Francesca Woodman sydd ar fenthyg gan y Tate Gallery yn Llundain. Mae'r prosiect wedi cael ei gyhoeddi ar wefannau'r Tate Gallery a Galeri Genedlaethol yr Alban.
Mwy>>>

Lefel A yn dod i Fannau Brycheiniog

Mae Grŵp Colegau NPTC yn ymestyn ei arbenigedd mewn Lefel A drwy lansio Academi Chweched Dosbarth newydd yng Nghampws Bannau Brycheiniog yn barod ar gyfer y derbyniad newydd ym Medi 2015.
Mwy>>>

ColegauCymru, Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
CollegesWales, Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB